

NILC Ardystiedig Microsoft: Hanfodion Azure DA



Yn gwyno

Bydd y cwrs hwn yn cyflwyno cysyniadau sylfaenol sy'n ymwneud â deallusrwydd artiffisial (Artificial Intelligence - AI), a'r gwasanaethau ym Microsoft Azure y gellir eu defnyddio i greu datrysiadau AI. Ni chynlluniwyd y cwrs hwn i addysgu myfyrwyr i ddod yn wyddonwyr data neu'n ddatblygwyr meddalwedd, ond yn hytrach i fagu ymwybyddiaeth o lwythi gwaith AI cyffredin a'r gallu i nodi'r gwasanaethau Azure i'w cefnogi.

Mae'r cwrs hwn ar gael fel rhan o Gyfrif Dysgu Personol (PLA). Mae PLA yn fenter gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnig cyfle i bobl gael mynediad at gyrsiau rhan-amser rhad ac am ddim gyda dysgu hyblyg a chyfleus sy'n cyd-fynd â'u ffordd o fyw bresennol (yn amodol ar gymhwysedd).

Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

...unrhyw un dros 19 mlwydd oed, sydd yn byw yng Nghymru ac sydd yn gyflogedig. Nid yw'r terfyn cyflog arferol o £32,371 yn berthnasol i'r cwrs hwn.

...unrhyw un sydd eisiau dangos gwybodaeth sylfaenol am ddysgu peirianyddol (Machine

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Learning - ML) a chysyniadau sy'n ymwneud â deallusrwydd artiffisial (AI) a gwasanaethau Microsoft Azure cysylltiedig

... unrhyw un sydd am ddechrau dysgu ar gyfer gyrfa ym maes gweinyddiaeth Azure a datblygu ac fel pensaer datrysiadau.

Cynnwys y cwrs

Cyflwynir y cwrs hwn ar ffurf ystafell ddosbarth rithwir. Mae ystafelloedd dosbarth rithwir yn cyfateb i gyrsiau ystafell ddosbarth wyneb yn wyneb, ond maent yn cael eu cyflwyno mewn amgylchedd ar-lein.

Hyd y Cwrs: 1 diwrnod

Bydd y cwrs hwn yn cyflwyno cysyniadau sylfaenol sy'n ymwneud â deallusrwydd artiffisial (Artificial Intelligence - AI), a'r gwasanaethau ym Microsoft Azure y gellir eu defnyddio i greu datrysiadau AI. Ni chynlluniwyd y cwrs hwn i addysgu myfyrwyr i ddod yn wyddonwyr data neu'n ddatblygwyr meddalwedd, ond yn hytrach i fagu ymwybyddiaeth o lwythi gwaith AI cyffredin a'r gallu i nodi'r gwasanaethau Azure i'w cefnogi.

Mae ymarferion ymarferol y cwrs yn seiliedig ar fodiwlau Learn, ac anogir myfyrwyr i ddefnyddio'r cynnwys ar Learn fel deunyddiau cyfeirio i atgyfnerthu'r hyn a ddysgir yn y dosbarth ac i archwilio pynciau'n ddyfnach.

Ar ôl cwblhau'r cwrs hwn, byddwch yn gallu:

- Disgrifio llwythi gwaith ac ystyriaethau Deallusrwydd Artiffisial
- Disgrifio egwyddorion sylfaenol dysgu peirianyddol ar Azure
- Disgrifio nodweddion llwythi gwaith golwg cyfrifiadurol ar Azure
- Disgrifio nodweddion llwythi gwaith Prosesu Iaith Naturiol (Natural Language Processing - NLP) ar Azure
- Disgrifio nodweddion llwythi gwaith AI ymddiddanol ar Azure

Gofynion Mynediad

Nid oes gan y cwrs hwn unrhyw ragofynion ffurfiol. Cynlluniwyd ef ar gyfer unigolion sydd am ddangos gwybodaeth sylfaenol am ddysgu peirianyddol (machine learning - ML) a chysyniadau deallusrwydd artiffisial (AI) a gwasanaethau Microsoft Azure cysylltiedig.



TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Gwybodaeth Ychwanegol

Cyn cael eich ymrestru ar eich cwrs a ariennir gan PLA, byddwn yn trafod cynllun dysgu unigol â chi er mwyn sicrhau eich bod wedi ystyried y llwybr dysgu cywir.

Bydd hyn yn cynnwys trafodaeth gyffredinol ar y pynciau canlynol:

addysg ffurfiol neu gymwysterau mewn meysydd cysylltiedig
profiad blaenorol yn y diwydiant neu'r maes
dyheadau gyrfa
dyrannu'r amser a fydd ei angen
mynediad at y rhyngwyd, cyfrifiadur Windows a gwegamera/meicroffon

Bydd hyn hefyd yn cynnwys trafodaeth benodol ar y meysydd isod ar gyfer y cwrs:

unrhyw brofiad blaenorol gyda chyfrifiadura ar y cwmwl
y defnydd o unrhyw blatfformau cwmwl megis AWS, Google Cloud neu Azure
diddordeb mewn dilyn cymwysterau Azure ychwanegol

Apply online at www.coleggwent.ac.uk

studentrecruitment@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

